# PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET

## (O Bell Trwy Teams)

**<u>Aelodau sy’n Bresennol:</u>** **<u>Dydd Mercher, 21 Hydref 2020</u>**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd M.Harvey** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd S.Rahaman** |
| **Cynghorwyr**: | S.E.Freeguard, N.T.Hunt, S.K.Hunt, A.Llewelyn, S.Miller, R.Mizen, J.D.Morgan, S.Paddison, L.M.Purcell, S.M.Penry, S.H.Reynolds a/ac A.N.Woolcock |
| **Swyddogion sy’n Bresennol:** | A.Evans, A.Jarrett, H.Jenkins, S.Phillips, C.Davies, C.Griffiths, S.Curran, C.Plowman, A.Thomas, N.Pearce, L.Beynon, R.Bowen, S.Brennan, R.Crowhurst, J.Merrifield, C.Morris, P.Curnow a/ac J.Woodman-Ralph |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr C.Clement-Williams, D.Jones, L.Jones, R.G.Jones, A.R.Lockyer, P.A.Rees a/ac P.D.Richards |

---

## 1. <u>DATGANIADAU O FUDDIANNAU</u>

Gwnaeth yr aelodau canlynol ddatganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd M Harvey: | Parthed Prosiect Isadeiledd Bargen Ddinesig Bae Abertawe gan ei fod yn aelod o Gyd-bwyllgor Craffu Dinas-ranbarth Bae Abertawe. |
| Y Cynghorydd S Freeguard: | Parthed Prosiect Isadeiledd Bargen Ddinesig Bae Abertawe gan ei bod yn aelod o Gyd-bwyllgor Craffu Dinas-ranbarth Bae Abertawe |
| Y Cynghorydd A Llewelyn: | Parthed Prosiect Isadeiledd Bargen Ddinesig Bae Abertawe gan ei fod yn |

aelod o Gyd-bwyllgor Craffu Dinas-ranbarth Bae Abertawe

## 2. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd canlynol:

- 2 Medi 2020
- 17 Medi 2020

## 3. CRAFFU CYN PENDERFYNU

Rhoddwyd cyflwyniad byr i'r pwyllgor a oedd yn rhoi trosolwg strategol o brosiect isadeiledd digidol Bargen Ddinesig Bae Abertawe; roedd y rhaglen waith benodol hon a'r buddsoddiad arfaethedig yn ymwneud â chysylltedd y rhanbarth, gan gynnwys Castell-nedd Port Talbot. Eglurwyd y byddai'r buddsoddiad yn cynnwys cysylltedd sefydlog ffibr llawn, yr isadeiledd cysylltiedig i'w gefnogi a chysylltedd ffonau symudol, 4G a 5G yn bennaf, a rhwydweithiau di-wifr datblygedig y ‘Rhyngrwyd Pethau'.

Esboniodd swyddogion ei fod yn rhaglen gwerth £55 miliwn dros 5 mlynedd; Ariannwyd £25 miliwn o'r cyfanswm gan y Fargen Ddinesig a byddai'r £30 miliwn arall yn cael ei ariannu gan y sectorau preifat a chyhoeddus. Tynnwyd sylw at y ffaith nad cyfraniadau lleol oedd cyfraniadau'r sector cyhoeddus, yn hytrach amcangyfrifwyd eu bod yn dod o gystadlaethau cenedlaethol a ffrydiau ariannu. Mewn perthynas â chyfraniadau'r sector preifat, nodwyd y byddai'n cael ei ysgogi fel rhan o'r ymarferion caffael amrywiol a gynhaliwyd; roedd y sector preifat yn geidwadol o ran y targedau ariannol a dywedodd Swyddogion nad oeddent yn rhagweld unrhyw broblemau o ran cyrraedd y targedau hynny.

Roedd y cyflwyniad yn nodi'r modd y caiff y prosiect arfaethedig ei gyflawni ar draws tair ffrwd waith a oedd yn cynnwys lleoedd gwledig, di-wifr a lleoedd cysylltiedig y genhedlaeth nesaf; byddai'r prosiect yn darparu cysylltedd mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau ar draws y tair ffrwd waith hynny:

- Gwledig - buddsoddi mewn cysylltedd gwledig, ac yn y pen draw mewn nifer o ymyriadau i gefnogi'r cymunedau mwyaf gwledig a chymunedau sydd wedi'u gwasanaethu'n wael e.e. ysgogi galw, hyrwyddo ffrydiau ariannu presennol i bobl fanteisio arnynt a chefnogi preswylwyr, cymunedau a busnesau

- Di-wifr y genhedlaeth nesaf – cyllid sbarduno i ddenu signalau 5G a 4G+ yn y dyfodol ar gyfer rhai ardaloedd lle bo hynny'n gall, a pheth rhwydweithiau di-wifr datblygedig i hwyluso pob math o achosion defnydd y byddai'r rhanbarth yn ceisio'u hariannu e.e. ceir di-yrrwr a gweithgynhyrchu clyfar. Mae amrywiaeth y rhanbarth yn cynnig cyfleoedd niferus i brofi a darparu'r defnydd o 5G ar gyfer y dyfodol
- Lleoedd cysylltiedig – buddsoddi mewn band eang ffibr llawn a rhwydweithiau ffibr llawn ar draws rhannau trefol y rhanbarth, yn enwedig Port Talbot, Castell-nedd, Abertawe a Llanelli

Nododd yr Aelodau'r prif resymau pam yr oedd y prosiect yn cael ei gynnal a oedd wedi'i rannu'n broblemau i'w datrys a chyfleoedd i fanteisio arnynt, a sut byddai cydweithio â Llywodraethau Cymru a'r DU, diwydiannau telathrebu a phartneriaid a rhanddeiliaid rhanbarthol yn helpu i wneud gwahaniaeth.

Roedd rhai o'r problemau i'w datrys yn cynnwys:

- Signalau ffibr llawn cyfyngedig iawn (dim ond 2.6% o fangreoedd, busnesau a chartrefi Castell-nedd Port Talbot oedd â band eang ffibr llawn); bwriedir defnyddio cyllid y prosiectau i gael cymaint o gysylltedd â phosib
- 22,000 o gartrefi ar draws y rhanbarth a oedd yn cael trafferth cael hyd yn oed ansawdd 30MB yr eiliad o ddarpariaeth rhyngrwyd; bwriedir lleihau'r nifer hwn yn sylweddol
- Diffyg cystadleuaeth cyflenwyr, sy'n un o'r rhesymau pam nad oedd y rhanbarth wedi'i wasanaethu'n dda o ran cysylltedd; bwriedir newid hyn drwy weithio gyda diwydiant a defnyddio'r arian i ddenu cystadleuaeth i sicrhau y gellid adeiladu cysylltedd dibynadwy, cynaliadwy a chyflym

Roedd rhai o'r cyfleoedd i fanteisio arnynt yn cynnwys:

- Arloesedd a ffrydiau busnes newydd; mae'r farchnad ddigidol a darpariaeth y gwasanaethau digidol yn cynnig potensial enfawr
- Cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniant; mae hyn yn cysylltu â chynnal cymunedau gan ei fod yn helpu i ddod â gwaith i bobl a chaniatáu i bobl gysylltu â gwaith
- Diogelu isadeiledd y rhanbarthau ar gyfer y dyfodol; roedd y buddsoddiad ar gyfer y dyfodol yn ogystal â heddiw

Soniwyd bod pandemig presennol COVID-19 wedi tynnu sylw at bwysigrwydd cysylltedd, gan fod yn rhaid i lawer o bobl weithio gartref a/neu redeg eu busnesau ar-lein.

Dangosodd swyddogion ddiagram a oedd yn dangos sut caiff y rhaglen ei strwythuro a'i chyflwyno; tynnwyd sylw at y ffaith bod bwrdd y prosiect isadeiledd digidol wedi llywio Swyddfa Rheoli Rhaglenni’r isadeiledd digidol. Nodwyd bod aelodau'r bwrdd yn bobl a oedd yn canolbwyntio ar gyfeiriad strategol economi'r rhanbarth a'i gydraddoldeb cymdeithasol a'i les cymdeithasol.

Cynhaliwyd trafodaeth mewn perthynas â chyflwyniad a ddarparwyd yn flaenorol i'r aelodau; cynnig ar gyfer cebl cyflym iawn yn ne Cymru a gyflwynwyd gan Syr Terry Matthews a'i bartneriaid ar y pryd. Dywedodd swyddogion mai dyma oedd sail y Fargen Ddinesig yn flaenorol, ond ei fod wedi newid cyfeiriad ers hynny.

Gofynnodd yr aelodau a allai Swyddogion egluro lle'r oedd lleoedd cysylltiedig Castell-nedd Port Talbot. Dywedwyd y byddai Port Talbot a Chastell-nedd yn ogystal ag Abertawe a Llanelli yn cael eu targedu o ran y rhwydwaith cwndidau a ffibr; y bwriad oedd cynnal caffaeliad i gysylltu asedau'r sector cyhoeddus a darparu cyfle ar gyfer mewnfuddsoddi sylweddol i gysylltu cynifer o adeiladau a chymunedau ledled Castell-nedd Port Talbot â phosibl. Ychwanegwyd nad oedd rhestr benodol o fusnesau a/neu gymunedau a fyddai'n cael eu targedu ar hyn o bryd; Byddai swyddogion yn gallu dechrau deall yn union pa gymunedau oedd o fewn y cwmpas ac y byddent yn debygol o gael eu cynnwys, ar ôl i'r profion marchnata a chaffael ddechrau.

Yn dilyn cwestiwn ynglŷn â sut i gael 5G, nodwyd, er mwyn cael gwasanaeth 5G da, yn yr un ardal ag y gallech gael 4G, fod angen dosbarthiad ffibr da iawn.

O ran y ffrwd waith wledig, gofynnwyd a fyddai'r rhanbarth cyfan yn cael ei gynnwys neu a fyddai rhai rhannau o'r rhanbarth yn cael eu targedu; ac os yr olaf, a oedd rhannau penodol o Gastell-nedd Port Talbot, er enghraifft cymoedd neu ganolfannau penodol, yr oeddent am ganolbwyntio arnynt. Cadarnhaodd swyddogion fod ganddynt wybodaeth a data manwl o ran pwy sydd wedi'u cysylltu a'r hyn y gallent  ddisgwyl ei dderbyn ar hyn o bryd; y flaenoriaeth bresennol oedd targedu'r rheini a oedd yn derbyn y gwasanaeth gwaethaf o ran cysylltedd, yn yr ardaloedd gwledig. Soniwyd na fyddai'r gyllideb bresennol yn ddigon i gysylltu pawb, ond roedd buddsoddiad yn parhau gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, yn ogystal â

chan y Fargen Ddinesig fel y soniwyd amdani eisoes; codwyd pwysigrwydd gweithio gyda phartneriaid i sicrhau na chaiff ymdrechion eu dyblu. Dywedwyd y gellid rhannu data a mapiau a oedd yn tynnu sylw at yr ardaloedd a wasanaethir waethaf gyda'r aelodau.

Cododd yr Aelodau bwysigrwydd sicrhau bod gan prosiect y Fargen Ddinesig synergedd â strategaethau perthnasol eraill, yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, yn enwedig mewn perthynas â chysylltedd yn ardaloedd y cymoedd; byddai hyn yn ychwanegu gwerth ac yn sicrhau bod y gwaith sy'n cael ei wneud o fewn y strategaethau yn cydweddu’n effeithiol. Soniwyd bod llawer o swyddogion a oedd yn ymwneud â strategaethau eraill, e.e. tasglu'r cymoedd, yn rhan o brosiect y Fargen Ddinesig; roedd y gwaith o bob maes megis iechyd, addysg ac yn enwedig twf economaidd yn seiliedig ar gysylltedd. Hysbyswyd yr Aelodau bod rhai ffrydiau cyllido eisoes ar gael i gymunedau; Roedd swyddogion yn bwriadu helpu'r rhanbarth i wella o ran cefnogi cymunedau a manteisio ar y cyfleoedd ariannu a oedd eisoes yn bodoli ar gyfer cysylltedd, a helpu cymunedau i ddefnyddio cyllid a chyflawni prosiectau cymunedol.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod angen cyfleu gwybodaeth dda a dibynadwy am gyflwyno 5G tuag allan er mwyn atal pryderon pellach am 5G; cadarnhawyd bod pedwerydd ffrwd waith lle byddai Swyddogion sy'n cynrychioli'r rhanbarth yn helpu awdurdodau lleol i ddelio â'r mathau hyn o faterion gan eu bod yn gyfarwydd iawn ag ymateb i ymholiadau 5G a phryderon iechyd.

Trafododd y pwyllgor agweddau ar y ffrwd waith wledig, a nododd fod dulliau cymysg o ymdrin â'r ffrydiau gwaith penodol oherwydd amrywiaeth y rhanbarth. Dywedwyd bod Swyddfeydd yn cydnabod pwysigrwydd ardaloedd gwledig, y cymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu’n ddigonol, y busnesau sy'n gweithredu a'r bobl a oedd bellach yn gweithio gartref yn y cymunedau hynny, sef y rheswm y tu ôl i'r dull cyfunol o ymdrin â'r ffrydiau gwaith a dosbarthiad buddsoddiad ar draws y ffrydiau gwaith oedd yn dibynnu ar hynny. Ychwanegwyd, yng ngoleuni pandemig COVID-19, fod gwelliannau wedi'u gwneud yn ddiweddar i'r achos busnes i gryfhau'r ddadl dros gydraddoldeb cymdeithasol a'r hyn sy'n deg ac yn iawn i gymunedau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan y Cabinet.

**CADEIRYDD**